YR ATODLEN

DATGANIAD YSGRIFENEDIG O DAN DDEDDF CARTREFI SYMUDOL 1983

# RHAN 2

## Gwybodaeth ynglyn â'ch hawliau

### Deddf Cartrefi Symudol 1983

**1.** Gan y bydd gennych gytundeb â pherchennog safle fydd yn rhoi'r hawl i chi gadw'ch cartref symudol ar ei safle ac i fyw ynddo fel eich cartref, bydd gennych hawliau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983, yn effeithio'n enwedig ar ddiogelwch eich tenantiaeth, gwerthu'ch cartref a'r adolygiad o ffi'r llain.

### Telerau goblygedig

**2.** Bydd yr hawliau hyn, sydd wedi'u cynnwys yn y telerau goblygedig a osodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn, yn gymwys yn awtomatig ac ni ellir eu diystyru, cyhyd â bod eich cytundeb yn parhau i fod yn un y mae Deddf 1983 yn gymwys iddo.

### Telerau datganedig

**3.** Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw un neu fwy o delerau eich cytundeb arfaethedig (fel a osodir yn Rhan 5 o'r datganiad hwn) dylech eu trafod â'r perchennog, a ddichon gytuno i'w newid.

### Yr hawl i herio

**4.** Os gwnewch y cytundeb ac yna eich bod yn anfodlon â'r telerau datganedig ynddo gellwch eu herio yn y modd a eglurir ym mharagraff 5. Ond rhaid i chi wneud hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad y gwnaethoch y cytundeb neu i'r dyddiad y cawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Os ydych yn dymuno herio'ch cytundeb, efallai y byddech am ymgynghori â chyfreithiwr neu â chanolfan cyngor ar bopeth.

**5.** Gellir gwneud her naill ai yn y llys sirol neu gerbron cymrodeddwr. Gellwch—

(a) gofyn i unrhyw delerau datganedig yn y cytundeb (y rheini a osodir yn Rhan 5 o'r datganiad hwn) gael eu newid neu eu dileu; neu

(b) gofyn i delerau pellach gael eu cynnwys yn y cytundeb ynghylch y materion a osodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (gweler paragraff 8).

Gall perchennog y safle hefyd fynd i'r llys neu at gymrodeddwr i ofyn i'r cytundeb gael ei newid yn y ddwy ffordd hyn.

**6.** Fe all y bydd un o delerau datganedig y cytundeb yn darparu ar gyfer penodi cymrodeddwr. Oni fydd felly, mae modd o hyd i chi a pherchennog y safle gytuno yn ysgrifenedig i benodi cymrodeddwr i setlo anghydfod rhyngoch.

**7.** Rhaid i'r llys neu'r cymrodeddwr wneud gorchymyn ar delerau a ystyrir ganddo ef yn deg ac yn ecwitïol yn yr amgylchiadau.

### Telerau pellach

**8.** Dyma'r materion a osodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983—

(a) y symiau sy'n daladwy gan y meddiannydd yn unol â'r cytundeb, ac ar ba adegau y maent i'w talu;

(b) yr adolygiad cyfnodol blynyddol o'r symiau taladwy hyn;

(c) darparu neu wella'r gwasanaethau sydd ar gael ar y safle gwarchodedig, a defnydd y meddiannydd ohonynt; ac

(ch) cadwraeth amwynder y safle gwarchodedig.

## Terfyn amser

**9.** Os nad oes cais wedi ei wneud i'r llys neu i gymrodeddwr o fewn chwe mis o'r dyddiad pan wnaethoch y cytundeb neu o'r dyddiad pan gawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'run bynnag yw'r diweddaraf, byddwch chi a pherchennog y safle wedi ymrwymo i delerau'r cytundeb ac ni fydd modd eu newid oni bai bod y ddau ohonoch yn cytuno.

## Telerau annheg

**10.** Os ydych yn ystyried fod unrhyw un o delerau'r cytundeb arfaethedig (fel a osodir yn Rhan 5 o'r datganiad hwn) yn annheg, gellwch, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999(**1**), wneud cwyn i'r Swyddfa Masnachu Teg neu unrhyw gorff cymwys(**2**).

(**1**) O.S. 1999/2083.
(**2**) Am y diffiniad o "qualifying body" *gweler*O.S. 1999/2083.